



Cynnwys

Holiadur i Rieni	1
Cymorth gyda Thechnoleg ac Addysgu o Hirbell	2
Cymorth Lles ac Emosiynol	2
Pontio ar gyfer Disgyblion Blwyddyn 6	3
Sianel Pontio Glantaf.....	3
Datblygiadau	3
Dyfarnu Graddau	3
Y Gymuned.....	3

Y 6ed o Fai, 2020

Annwyl Riant/Ofalwr,

Mae dysgu o hirbell ar gyfer blynyddoedd 7-13 yn parhau ac mae Glantaf hefyd yn parhau i fod yn ysgol hwb, sydd yn cefnogi plant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Diolch i'r holl staff sydd wedi bod yn gweithio ar rota yn yr hwb.

Hoffwn hefyd ddiolch i chi fel rhieni, gofalwyr a theuluoedd am eich cefnogaeth barhaus a'ch adborth caredig. O fewn y bwletin yma rydym wedi cynnwys mynediad at holiadur i rieni a gofalwyr, a fydd gobeithio yn llywio ein dealltwriaeth fel ysgol o sut y gallwn gynllunio a chefnogi'r teuluoedd o fewn ein cymuned ysgol ymhellach.

Mae'r ysgol yn eich gwahodd i ddarparu adborth penodol wrth lenwi'r holiadur fel y gallwn gydnabod yr heriau y gallech fod yn eu hwynebu a chynllunio ar gyfer y dyfodol agos. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â dysgu o hirbell a lles, ac mae hefyd cyfle i chi fynegi eich barn yn agored ar ffurf newidiadau neu awgrymiadau posib y gallwn eu hystyried er mwyn gwella ein darpariaeth ar gyfer dysgu o hirbell a chymorth bugeiliol.

Rydym yn sylweddoli nad yw dysgu rhithwir yn gallu cyfateb i'r profiadau dysgu a gaiff eich plentyn/plant tra yn yr ysgol. Mae cynnal trefn yn her i lawer ohonom ar hyn o bryd boed yn athrawon, rhieni neu fyfyrwyr, yn enwedig wrth ymgeisio i weithio o adref a gofalu am ein teuluoedd. Os yn bosib, anogwch eich plentyn/plant i ymgysylltu â'u Dosbarthiadau Google yn annibynnol er mwyn cyfathrebu gyda'u hathrawon yn rheolaidd. Fe fydd y cyfathrebu cyson yma yn helpu athrawon i wneud penderfyniadau a fydd yn cefnogi'r dysgwyr gyda'u gwaith.

Holiadur i Rieni

https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfluVx2_Voz_6tkQ5pHt0cs0sEF14SnCkWMwKsa77Dyr-yOLw/viewform?usp=sf_link

Cymorth gyda Thechnoleg ac Addysgu o Hirbell

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch yn ymwneud â Dosbarthiadau Google neu addysgu digidol, cofiwch fod yr ysgol yma i'ch cefnogi chi. E-bostiwch cymorthtg@glantaf.cymru am unrhyw faterion technegol. Sicrhewch fod eich plentyn/plant wedi ymuno â'i holl Ddosbarthiadau Google (mae'r codau ar gyfer y dosbarthiadau ar gael o fewn Dosbarthiadau'r Flwyddyn). Yn ogystal â gwirio eu Dosbarthiadau Google yn ddyddiol, hoffem hefyd atgoffa dysgwyr i agor a gwirio eu cyfrif Gmail yn rheolaidd. Bydd hysbysiadau Dosbarthiadau Google yn ymddangos fel negeseuon o fewn eu cyfrif Gmail ynghyd â negeseuon gan eu hathrawon.

Wrth ymweld â'u Dosbarthiadau Google a'u cyfrif Gmail yn aml bydd y dysgwyr hefyd yn cael eu trochi yn y Gymraeg a bydd ymgysylltiad parhaus ein hathrawon â nhw yn eu hannog i siarad a byw yn y Gymraeg. Yn dilyn ymateb i adborth a gafwyd trwy holiaduron disgyblion, dim ond 1 dasg yr wythnos, neu 1 dasg sylweddol dros gyfnod o wythnosau sydd bellach yn cael ei darparu gan bynciau ac athrawon. Ar wahân i ŵyl y banc, sydd ar ddydd Gwener yr 8fed o Fai, bydd gwaith yn cael ei ddarparu hyd at y Sulgwyn.

Awgrymwn fod disgyblion yn cwblhau rhwng 2-3 awr o waith ysgol y dydd, ynghyd â gweithgareddau sy'n cyfoethogi bywyd teuluol fel ymarfer corff, darllen, chwarae gemau, celf a chrefft, coginio ayyb. Sylweddolwn fod pob unigolyn yn gweithio ar wahanol gyflymder, yn gweld elfennau gwahanol o dasgau yn hawdd neu'n anodd, ond nid oes disgwyl eu bod yn treulio amser gyda'r nos yn gwneud gwaith cartref yn ychwanegol at waith y diwrnod hwnnw. Sylweddolwn nad yw'n bosib i bawb gwblhau pob tasg. Ein hunig ddisgwyliadau o'n dysgwyr yw eu bod yn gwneud eu gorau a chyflawni'r hyn sy'n ymarferol bosib o dan yr amgylchiadau. Os ydych chi'n chwilio am dasgau ychwanegol i'r dysgwyr eu cwblhau yna mae Bitesize wedi lawnsio gweithgareddau dyddiol mewn amrywiol bynciau ar gyfer disgyblion CA3:

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zdwkkmn>

ac mae gwefan Bitesize ar gyfer CA4 eisoes yn bodoli:

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z8w76sg>

Cymorth Lles ac Emosiynol

Mae'r cyfnod hwn yn her i nifer o'n plant a'n pobl ifanc, fel ag ydyw i ni fel oedolion. Mae'n gyfnod anghyffredin o fethu dilyn patrwm bywyd bob dydd cyfarwydd, methu mynd allan i chwarae, methu gweld ffrindiau, methu cymryd rhan mewn hoff weithgaredd hamdden. Hoffwn eich sicrhau chi a'r dysgwyr ein bod yma fel ysgol yn gefn i chi bob amser. Mae gan bob dysgwr fynediad i ofal bugeiliol eu Pennaeth Cynnydd a Lles drwy ebost a Google Classrooms. Gellir hefyd gysylltu gyda'r ysgol drwy ebostio bn@glantaf.cardiff.sch.uk Mae cyfrif Twitter @LlesYsgolGlant1 hefyd yn cynnig gwybodaeth am faterion lles ac iechyd meddwl gyda dolenni i wefannau gan fudiadau, elusennau ac asiantaethau allanol.

Rhai o'r rhai mwyaf defnyddiol ar hyn o bryd yw:

- www.youngminds.org.uk
- www.cardiffamilies.co.uk/cy/ (cyngor a chymorth rhianta)
- Cwestiynau am ddarpariaeth PYD sydd wedi newid dros y Pasg - Freeschoolmeals@cardiff.gov.uk
- Cymorth i deuluoedd bwyd/darpariaeth hanfodol 02920871071
- Gwasanaeth cwnsela wythnosol i ddisgyblion, gall rhieni eu cyfeirio 02920330709
- Gwasanaeth tecstio nyrs ysgol i ddisgyblion 11-19 oed 07520615718

Pontio ar gyfer Disgyblion Blwyddyn 6

Os oes gennych blentyn ym mlwyddyn 6, bydd cau ysgolion wedi effeithio ar ei brofiadau/phrofiadau pontio. Cofiwch fod ein cydlynnydd trosglwyddo ac Arweinydd Cynnydd a Lles i flwyddyn 7, Miss Ffion Roberts, yma i'ch cynorthwyo. Mae Miss Roberts a'i dirprwy, Miss Walkling wedi creu sianel Youtube lle byddant yn gallu rhannu negeseuon gyda phlant blwyddyn 6 a'u cyflwyno i'r ysgol ac i'r staff. Er bod llawer o ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch unrhyw ddychwelyd i'r ysgol, mae'r staff a'r disgyblion yn edrych ymlaen at estyn croeso cynnes i'n blwyddyn 7 newydd ac mae'n flaenoriaeth i ni fel clwstwr i sicrhau fod disgyblion newydd i'r ysgol yn cael y cyfle i ymglyfarwyddo â'r ysgol a'r staff.

Sianel Pontio Glantaf

<https://www.youtube.com/channel/UC7p8HUIKpwSXRke5FbCYoLg>

Datblygiadau

Yn amlwg mae cymuned yr ysgol yn edrych ymlaen at weld ysgolion yn ailagor fel canolfannau dysgu yn ogystal â darpariaeth hwb ond dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Ar yr 28ain o Ebrill pwysleisiodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, bod ailagor ysgolion yn dibynnu ar feini prawf penodol sydd yn ystyried diogelwch dysgwyr, staff a theuluoedd. Amlinellwyd pum prif egwyddor y bydd angen eu hystyried yn ogystal â sicrhau bod ysgolion yn derbyn graddfa amser briodol er mwyn cynllunio ar gyfer unrhyw newid i'r drefn bresennol. I ddarllen ymhellach, gweler y datganiad a gyhoeddwyd gan Kirsty Williams (mae'r ddolen wedi ei chynnwys isod). Fe fydd unrhyw ddychwelyd posib i'r ysgol yn debygol o fod yn raddol yn y lle cyntaf. Bydd yr ysgol yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a datblygiadau gyda chi trwy SIMS a'r cyfrifon Trydar.

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllunio-camau-adfer-yn-sgil-covid-19-galluogi-ysgolion-i-weithredu?_ga=2.230809180.215561180.1588751220-521627581.1580655439

Dyfarnu Graddau

Mae athrawon yr ysgol wrthi yn ddyfarnu graddau i ddysgwyr blynyddoedd 11 -13 yn TGAU, Uwch Gyfrannol, a Safon Uwch. Am wybodaeth bellach am y broses o ddyfarnu graddau gweler y bwletin diwethaf a gyhoeddwyd ar yr 24ain o Ebrill.

Mae'r data (graddau a threfn restrol) a gaiff ei ddarparu yn gyfrinachol, ac ni ellir ei rannu gyda chi fel rhieni neu ofalwyr, na gyda'r dysgwyr eu hunain. **Gofynnwn yn garedig i chi beidio â gofyn i'r athrawon, nac unrhyw un arall yn yr ysgol, i ddatgelu pa raddau y byddan nhw'n eu hanfon at CBAC nac ym mha drefn maen nhw wedi gosod eich plentyn gan na fyddwn yn datgelu'r wybodaeth.** Pwmpas hyn yw helpu sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau mor deg â phosibl. Gallai'r radd derfynol fod yn wahanol i'r un mae'r ysgol yn ei hanfon at CBAC.

Am wybodaeth bellach, ewch i wefan Cymwysterau Cymru:

<https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/>

Y Gymuned

Mae'r ysgol yn dal i chwarae rôl allweddol yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Mae Dr Henderson a Mrs Hill yn parhau i baratoi nwyddau PPE i weithwyr allweddol ar hyd a lled y wlad. Mae Emily o flwyddyn 12 yn codi arian i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro drwy seiclo; mae Tomi o flwyddyn 9 wedi bod yn brysur yn hyrwyddo cystadleuaeth dylunio crys-t

Chwarae Gyda'n Gilydd; mae Rhys o flwyddyn 7 wedi codi dros dwy fil o bunnau ar gyfer elusen Latch trwy redeg ac mae Oliver wedi gorffen rhedeg 50km ac wedi codi dros £1300 i elusen Arch Noa.

Un peth y gallwn ei ddweud gyda sicrwydd yw ein bod yn gweld eisiau ein dysgwyr ac mae clywed am eu hymdrechion elusennol a chreadigol wedi codi ein calonnau yn ystod y cyfnod yma. Ar y nodyn yma, rydym yn gofyn i'n dysgwyr fynegi diddordeb yn yr her ganlynol. Mae clywed am eu straeon yn rhoi cyfle arall i ni rannu profiadau gyda'n gilydd fel cymuned ysgol.

Logio Lockdown

Mae Coronafirws wedi newid pethau yn fawr i ni yng Nglantaf a hoffem ni wybod beth rydych chi'n gwneud (yn wahanol i waith ysgol) tra eich bod chi adref a sut rydych yn teimlo am hyn.

Gallwch wneud hyn trwy gyflwyno:

- Fideo (1 munud o hyd neu'n llai)
- Darn ysgrifenedig (dyddiadur/ ymson/ stori/ cerdd)
- Darn o gelf
- Ffotograff
- Cân
- Darn o Gerddoriaeth

Danfongwch eich campweithiau at bwa@glantaf.cymru neu eu rhannu nhw ar Google drive erbyn yr 20fed o Fai. Diolch.

Logging Lockdown

Coronavirus has changed a lot of things for us at Glantaf and we would like to know how you what you're doing (other than work or school work) whilst you're all at home, and how you're feeling.

You can do this by sharing a:

- Video (no longer than 1 minute)
- Piece of writing (diary/ story/ poem)
- Piece of Art
- Photograph
- Song
- Piece of Music

Send your masterpieces to bwa@glantaf.cymru or share them on Google drive by the 20th of May. Diolch.



Yn ddiffuant,

Alun Davies a Staff Glantaf